

Prosiect 41 - Methodoleg Seiliedig ar Risg (MSR) Bathymetrig

Trosolwg— Mae'r Fethodoleg Seiliedig ar Risg Bathymetrig yn caniatáu gwneud penderfyniadau strategol wrth benderfynu pa ardaloedd morol yng Nghymru y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad arolwg bathymetrig gan CMAC. Mae'r MSR Bathymetrig wedi'i datblygu i ddarparu dealltwriaeth o ddylanwadau ar draws y system ar erydu arfordirol a pherygl llifogydd gyda'r glannau i gefnogi penderfyniadau RhPLIEA.

Mae system sgorio wedi'i datblygu i feintioli'r risg sy'n gysylltiedig â phob uned CRhA yn seiliedig ar bum ffactor allweddol:

1. Sgôr MSR
2. Dyddodiadau Arwynebol
3. Hinsawdd y Tonnau (uchder tonnau)
4. Amrediad Llanw
5. Amser yr Arolwg Diweddaraf

Nod - Datblygu a chynhyrchu cynllun ledled y wlad sy'n dosbarthu ardaloedd morol drwy ddefnyddio system sgorio risg i helpu i bennu blaenoriaethau buddsoddi arolygon bathymetrig.

Pwy - Hannah Richards, Ben Davies, Lucy Attwood, Gwyn Nelson

Canlyniadau – Crëwyd system Methodoleg Seiliedig ar Risg (MSR) yn unol â monitro arfordirol MSR presennol CMAC, gan sgorio risg ardaloedd alltraeth ar gyfer blaenoriaethu arolygon bathymetrig.

